Jac a'r Goeden Ffa



Un tro roedd bachgen o'r enw Jac.



twinkl.co.uk

Roedd Jac yn byw gyda'i fam. Roedden nhw yn dlawd iawn ond roedd un eiddo gwerthfawr ganddyn nhw - buwch.



twinkl.co.uk

Un diwrnod, anfonwyd Jac i'r farchnad gan ei fam i werthu'r fuwch.



twinkl.co.uk

Ar y ffordd, cyfarfu Jac â dyn.



twinkl.co.uk

Roedd mam Jac yn flin iawn pan ddaeth yn ôl gyda'r ffa. Taflodd mam y ffa allan drwy'r ffenestr a danfon Jac i'w wely.




twinkl.co.uk

Y bore wedyn, edrychodd Jac allan drwy'r ffenestr. Roedd coeden ffa anferth wedi tyfu yn yr ardd!




twinkl.co.uk

Penderfynodd Jac ddringo'r goeden ffa. Roedd y goeden mor dal roedd yn ymestyn i'r awyr a thrwy'r cymylau.




twinkl.co.uk

Pan gyrhaeddodd Jac brig y goeden, gwelodd gastell enfawr.




twinkl.co.uk

Sleifiodd Jac i mewn i'r castell, roedd y dodrefn i gyd yn anferth! Yn sydyn, clywodd Jac sŵn uchel.




twinkl.co.uk

Rhedodd i guddio mewn cwpwrdd.




twinkl.co.uk

Daeth cawr enfawr i mewn i'r ystafell.




twinkl.co.uk

" Dwi'n arogli arogl iach! Arogl gwaed rhyw Gymro bach!" bloeddiodd.




twinkl.co.uk

Eisteddodd y cawr i lawr wrth y bwrdd. Ar y bwrdd roedd iâr a thelyn aur.



twinkl.co.uk

"Dodwa!" meddai'r cawr. A dodwy ŵy wnaeth yr iâr; roedd yr ŵy wedi ei wneud o aur soled.



twinkl.co.uk

"Cana!" meddai'r cawr. Canodd y delyn; cwympodd y cawr i gysgu.



twinkl.co.uk

Neidiodd Jac allan o'r cwpwrdd a chymryd yr iâr a'r delyn. Wrth i Jac redeg, llefodd y delyn "Help, Meistr!"



twinkl.co.uk

Deffrodd y cawr a gwaeddodd, " Dwi'n arogli arogl iach! Arogl gwaed rhyw Gymro bach!" Rhedodd ef ar ôl Jac at y goeden ffa.



twinkl.co.uk

Dringodd Jac i lawr y goeden ffa a dilynodd y cawr.



twinkl.co.uk

Wrth i Jac gyrraedd y gwaelod, gwaeddodd, "Help!"



twinkl.co.uk

Daeth mam allan o'r tŷ gyda bwyell.



twinkl.co.uk

Torrodd mam gwaelod y goeden ffa. Cwympodd y cawr yn glep i'r llawr. Ni welodd neb y cawr byth eto.




twinkl.co.uk

Gyda'r wyau aur a'r delyn hud, bu Jac a'i fam fyw'n hapus am weddill eu hoes.



twinkl.co.uk


twinkl
twinkl
Quality Standard
Approved